**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd Nos Fawrth 17 o Ebrill 2018 am, 7:00 y.h. yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug.**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Hefin Jones (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Goronwy Hughes, Martin Jones, Cemlyn Jones, Llywelyn Williams, Philip Roberts, Clifford Williams, Richard Robinson, Meirwen Lloyd, Haf Williams

**Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr** Alan Pritchard, Rhys Parry, Beca Brown

**Aelod Cyngor Gwynedd**: **Y Cynghorydd** Berwyn Parry Jones (Aelod dros Cwm y Glo).

**Clerc:** Meirion Jones

**Hefyd yn Bresennol Cynrychiolwyr o Wasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd**: Catrin Thomas, Nia Morris ac Annette Ryan.

**155. Croeso gan y Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd yn enwedig y tair Swyddog o Wasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd a diolchodd iddynt am gytuno i ddod i gyfarfod a'r Cyngor Cymuned heno.

**156. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**157. Datgan buddiant personol.**

Unrhyw fuddiant personol i'w nodi yn yr eitem

**158. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Mawrth 2018**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.

**159. I groesawu cynrychiolwyr gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod i drafod materion yn ymwneud a penderfyniad diweddar Cyngor Gwynedd i gau clybiau ieuenctid a'i effaith ar Llanrug ynghyd a gwahanol opsiynau sydd ar gael.**

Amlinellodd Catrin Thomas y sefyllfa fel y mae nawr a dyheadau Cyngor Gwynedd ar gyfer y dyfodol parthed y gwasanaeth. Adroddwyd fod y newid yn golygu fod y dull mae clybiau ieuenctid yn cael eu rhedeg ac yn edrych yn newid. Y gwahaniaeth ydi fod y plant sydd nawr yn dod i glwb ieuenctid sefydlog, fel yn Ysgol Brynrefail ar hyn o bryd, yn newid a bydd y gwasanaeth ieuenctid yn mynd allan at y plant yn yr ysgolion. Adroddwyd ei fod yn angenrheidiol fod y gwasanaeth yn darparu gwasanaeth i bob unigolyn rhwng 16 a 25 sydd ddim mewn addysg a gwaith.

Aeth ymlaen i egluro'r gweithgareddau a ragwelir bydd yn cymryd lle oddi tan y weithdrefn newydd.

Ar y diwedd cafodd yr aelodau gyfle i holi'r swyddogion .

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn yr adroddiad a diolch i'r Swyddogion am ddod i'r cyfarfod.
b) Y Cyngor Cymuned i ystyried yr hyn a gyflwynwyd gan y swyddogion ac i ystyried y gwahanol opsiynau, ac i'r aelodau feddwl am unrhyw gwestiynau sydd wedi codi o heno ac o bosib cynnal cyfarfod arbennig i drafod y gwahanol opsiynau.

**160. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

Trafodwyd nifer o faterion yn deillio o gofnodion Mawrth 2018.

**161. I dderbyn sylwadau ar faterion y Fynwent ac i ystyried gwahanol opsiynau ar ddefnydd y cwt sydd yn y fynwent.**

Adroddwyd fod cyfarfod wedi bod o bwyllgor y fynwent, i ystyried y gwaith sydd angen ei wneud oherwydd fod y fynwent yn prysur lenwi. Nodwyd fel rhan o'r gwaith o ehangu'r fynwent, fod angen codi'r wal sydd yn ffin y fynwent.

Nodwyd ymhellach fod cyflwr y cwt wrth y fynedfa i'r fynwent yn tynnu ffwrdd o gyflwr y fynwent.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn yr adroddiad;
b) Cael pris am godi'r wal a hysbysebu yn y wasg;
c) Cael pris am dacluso'r cwt

**162. I dderbyn sylwadau ar faterion Llwybrau cyhoeddus – Llwybr Gelliod (Cyng Hefin Jones)**

Adroddwyd gan y cadeirydd fod llwybr Gelliod yn hynod o fwdlyd ac ei fod angen sylw.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn yr adroddiad;
b) Adrodd am lwybr Gelliod i Gyngor Gwynedd;
c) Atgoffa Swyddog llwybrau Cyngor Gwynedd o gyflwr a sefyllfa'r llwybrau sydd eisoes wedi eu dwyn i'w sylw ond hyd yma ddim wedi derbyn ymateb.

**163. I dderbyn sylwadau ar faterion meysydd chwarae**

Adroddwyd fod cwyn wedi ei dderbyn am gyflwr y maes chwarae yn Nant y Glyn. Adroddwyd fod cyn Bennaeth Ysgol Brynrefail wedi mynychu un o gyfarfodydd y Cyngor ac wedi ymrwymo i gyd weithio gyda'r Cyngor. Un o'r penderfyniadau a gytunwyd arnynt oed i aelod (au) o'r Cyngor fynychu'r ysgol i esbonio'r effaith mae achosion o fandaliaeth yn eu gael ar y gymuned a'r gost i'r gymuned sydd yn sgil hyn.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a Pennaeth newydd yr ysgol i roi gwahoddiad iddi fynychu cyfarfod o'r Cyngor Cymuned.

**164. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug.**

Adroddodd y Cynghorydd Llywelyn Williams ei fod wedi mynychu cyfarfod o'r Llywodraethwyr a gynhaliwyd 21 o Fawrth 2018

**Cynllun Tai arfaethedig, tir yr Eglwys (dros ffordd i'r Ysgol, ar ffordd yr A4086)**

Yn dilyn cyfarfod gyda'r Cynghorydd, Charles Jones ar y mater, penderfynwyd i wrthod y cais cynllunio yn unfrydol. Gwrthwynebwyd y cynllun oherwydd amheuaeth am ddiogelwch plant yn sgil pryderon o ran cynnydd mewn traffig, pe bai'r cynllun yn dod i rym.

**Sefyllfa'r Ysgol**

Mae **256** o ddisgyblion yn cynnwys 30 o ddisgyblion rhan amser ar gofrestr yr ysgol. Bydd **36** yn gadael blwyddyn **6** ym mis Gorffennaf ac mae **33** wedi cofrestru ar gyfer y meithrin ym Medi ac un cais hwyr ar ei ffordd. Mae **31** wedi cofrestru ar gyfer Derbyn.

**Staffio**

Mae staffio o ran athrawon yn sefydlog fel yr adroddwyd ym mis Tachwedd. Bydd peth newid i drefn cymorthyddion o fewn y meithrin ym mis Ebrill yn sgil ad-drefnu staff a dirwyn cytundebau byr dros dro i ben.

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus DPP**

Rhoddwyd cryn bwyslais ar fynychu hyfforddiant sy'n cefnogi codi safonau mewn llythrennedd - codi safonau ysgrifennu gan ddefnyddio egwyddorion Pie Corbett, rhifedd (rhifo rhagorol yn y CS a chynllunio datrys problemau yn Ca2 a chymhwysedd digidol).

**GWE**

Bellach, mae'r Ysgol yn cael ei hystyried yn **wyrdd**. Golyga hyn nad ydyw GWE yn monitro yn dymhorol a bod yr Ysgol yn cyd-weithio gydag ysglion sy'n cael eu hystyried yn wyrdd/melyn cadarn. Bellach, mae Ysgol Llanrug yn yr un grwp ag Ysgol Bontnewydd, Ysgol y Faenol, Ysgol Llanllechid, Ysgol Gwaun Gynfi ac Ysgol Waunfawr.

**Presenoldeb**

Gosodwyd targed o **96%** fel corff ar gyfer presenoldeb yr ysgol eleni. **95.18%** oedd presenoldeb yn ystod tymor yr Hydref. (**96.03%** ydoedd flwyddyn yn ôl)

**Arwain Cynllun Dyfodol Llwyddiannus yn y dalgylch**

Cwblhaodd y pennaeth gais grant am **£10,000** i ddatblygu gwaith 'Dyfodol Llwyddiannus' ar draws y dalgylch a phrosiect creadigol gyda PLU.

Derbyniwyd **£2000** i'r ysgol gan GWE am y gwaith o arwain yn y dalgylch a mynychu hyfforddiant.

**Cymhwysedd Digidol**

Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus ac wedi derbyn grant gwerth **£2500** ar gyfer sefydlu Clwb Codio.

**SAFMEDS Prifysgol Bangor/GWE**

Mae'r ysgol wedi buddsoddi **£1000** i gyllido cynllun SAFMEDS i godi safonau mathemateg sy'n canolbwyntio ar waith pen. Mae hyfforddiant wedi ei ddarparu ar gyfer 3 aelod o staff ac adnoddau arbenigol wedi eu rhannu ar draws yr ysgol i gyd.

**Lles/Ymddygiad/Gwaharddiad**

Bu'r Swyddog Lles yn cyfarfod yn gyson gyda'r Pennaeth er mwyn monitro presenoldeb / absenoldebau yn yr ysgol ac unrhyw faterion lles oedd yn codi.

Bu John Hughes Jones, y swyddog lles yn cydweithio gyda'r ysgol.

Bu'r Pennaeth yn cyfarfod a'r gwasanaethau cymdeithasol ac athrawes ymddygiad yr awdurdod yn achlysurol.

**Talu Ar-Lein**

Mae rhagor o rieni yn talu am y clwb brecwast a chinio ysgol ar lein. Bydd yr ysgol yn ceisio hyrwyddo hyn ymhellach - fel ein bod wedyn mewn sefyllfa i'w ymledu i ymweliadau ysgol ayyb.

**Adeiladau / Iechyd a Diogelwch**

- Bydd y gyllideb yn brin yn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Clwb Plant yn fodlon ariannu drws newydd.
- Cegin newydd, haf 2018.

- Mae llawer o waith wedi ei wneud i godi ymwybyddiaeth staff o drefn gweithredu cyson drwy'r ysgol mewn ymateb i faterion iechyd a diogelwch e.e. cadw'r llwybrau tân yn glir / bagiau ar y pegiau / cadw offer.

**Darpariaeth**

**Cerdd -** Mae gwersi offerynnol Canolfan Gerdd William Mathias yn parhau. Gosodwyd yr un gost sef £170 y flwyddyn.

**URDD -** Nifer o blant wedi bod yn llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd.

**Addysg Gorfforol -** Trefnwyd gwersi nofio/tenis ar gyfer blynyddoedd 3/4. Cystadlodd disgyblion o'r ysgol mewn cystadleuaeth Rygbi. Tim Pel-rwyd yn bencampwyr Eryri. Nifer o blant blwyddyn 3,4,5 a 6 wedi llwyddo yn y gala nofio ac yn mynd i Gaerdydd ym mis Ionawr gyda thimoedd cyfnewid yn 3ydd drwy Gymru.

**Clybiau** - Cynhelir clwb pêl-droed ar nos Lun a chlwb hoci ar nos Fawrth. Clwb celf / band ysgol.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a diolch I'r Cynghorydd Llewelyn Williams am ei adroddiad.

**165.** **I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Cwm y Glo.**

Nodwyd nad oedd adroddiad ar gael oherwydd nad oedd cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar Fwrdd Llywodraethwyr yr ysgol yn bresennol

**166.** **I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

Derbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones

**Cynllunio**

Gwaith yn mynd ymlaen i greu Canllawiau Cynllunio Atodol, gobeithio fydd yr un sydd yn ymwneud a'r iaith Gymraeg allan i ymgynghoriad cyhoeddus yn y misoedd nesaf.

Canlyniad apêl Pen y Ffridd Bangor 366 o dai, yr apêl wedi ei golli, oherwydd y Cynllun Datblygu Lleol, gafodd ei fabwysiadu yr haf diwethaf.

**Gwasanaeth Hamdden**

Erbyn hyn rwyf wedi mynychu y cyfarfod cyntaf o'r Cyfarwyddwyr y cwmni newydd. Mae Prif Weithredwr eisoes wedi ei phenodi (Amanda Davies), ac mae'r rhaglen i sefydlu y cwmni newydd wedi ei gytuno. Y gobaith yw y bydd pob peth wedi ei gwblhau erbyn diwedd Hydref

**Yn lleol**

**Bysiau**

Rwyf wedi cael un neu ddau o gwynion gan drigolion yn cwyno fod bysus wedi bod yn hwyr neu hyd yn oed ddim troi i fyny ar adegau. Mae cwmni Arriva yn awyddus i gael gwybod am yr achosion yma, ac o bosib fydd peth iawndal, mewn ffurf tocynnau bysiau i gael am unrhyw anhwylustod. Felly os ydych eisiau annog unrhyw un sydd wedi cael ei effeithio, i gysylltu a'r Cyngor, ac fe wnaent yrru unrhyw gwynion ymlaen at Arriva.

Y gwaith ar uwchraddio y llwybr troed rhwng Cwm y Glo a Llanrug yn dal i fynd yn ei flaen. Gobeithio byddant yn cwblhau yn fuan.

Mae tipio slei bach dal yn broblem, wedi cael hanes rhywun yn tipio yn Cwm y Glo eto, hefo rhif car y tro yma, ddim wedi clywed os oes rhyw ddilyniant eto. Eto os oes gan unrhyw un unrhyw wybodaeth am pwy sy'n gwneud os fasech chi yn gadael i mi neu yr awdurdod wybod.

**167. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

Derbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cynghorydd Charles Jones

LLWYBR OGWEN

1. Llifogydd Gaeaf 2017:

Llwybr Ogwen :

Yn dilyn y llifogydd diweddar a fy nghais yn 2016 i Gyngor Gwynedd ymestyn wal gynnal yr afon ger talcen tŷ Ogwen ar y llwybr cyhoeddus, fe wnaethpwyd y gwaith yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth. Mae'r wal newydd a'r rheiliau yn edrych yn dda (gweler y lluniau). Gobeithio'n fawr iawn fydd y gwaith yma yn datrys y broblem o ddŵr yr afon yn gorlifo i ardd Ogwen, ac i'r tŷ, pan mae lefel yr afon yn codi yn ystod cyfnodau o law trwm dros gyfnod estynedig.

Tir gyferbyn a Garreg Hafod (gynt):

Mae arweinydd tîm gorfodaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau fod y 'Planning Contravention Notice' (PCN) a anfonwyd allan ar 2 Chwefror 2018 wedi ei gwblhau a'i ddychwelyd i'r Gwasanaeth Cynllunio. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd wrthi'n cael ei asesu ar hyn o bryd gyda'r bwriad (gobeithio) o gyflwyno rhybudd gorfodaeth ar y perchennog yn y dyfodol agos.

Cais Cynllunio Rhif: C18/0132/23/LL, Adeiladu 9 Ty, Cae'r Eglwys, Llanrug.

Yn dilyn gohebiaeth gyda'r Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Amgylchedd, mae'r Adran Gynllunio wedi rhyddhau'r datganiad canlynol i mi drwyddo:

Yn gyntaf, hoffwn gadarnhau nad oes cyfiawnhad i gynnwys ffordd gyswllt o Ffordd yr Orsaf i'r A4086 fel amod mewn unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer y stad. Mae'n wir fod Esgobaeth Bangor wedi cynnwys ffordd linc yn eu cais cynllunio yn 2012 ond yr oedd sail hynny yn wirfoddol ac nid oherwydd unrhyw bwysau gan y Cyngor. Wrth gwrs, byddai wedi bod yn ddymunol pe bai'r ffordd linc wedi gallu cael ei hadeiladu gyda'r effaith o leihau'r pwysau traffig ar y "sgwâr". Fodd bynnag, ddaeth cyfnod y caniatâd cynllunio gwreiddiol i ben, ac o ganlyniad, unrhyw obaith o adeiladu'r ffordd linc. Yn anffodus, nid oes modd i'r Cyngor orfodi'r datblygwr presennol i'w gynnwys yn ei gynlluniau ef.

Mewn perthynas â'ch ymholiad ynghylch beth yw bwriad y Cyngor i wella llif trafnidiaeth y Sgwâr, mae'n ddrwg gennyf ddweud nad oes gennym gynllun ar hyn o bryd. Rydym yn gwerthfawrogi nad yw'r trefniant cyfredol yn ddelfrydol. Fodd bynnag, nid yw'r ystadegau gwrthdrawiadau ar gyfer y safle - sef y mesur arferol o ddiogelu defnyddwyr y ffyrdd - yn dangos fod hanes diweddar, nac ychwaith patrwm o ddamweiniau, ar y groesffordd hon. Mae hyn yn golygu y byddai unrhyw gynllun yn isel ar ein rhestr o flaenoriaethau. Yn amlwg, fe wnawn barhau i fonitro'r sefyllfa ar y Sgwâr, a phe bai'r amgylchiadau'n newid, byddai modd i ni wedyn ailasesu ein blaenoriaethau.

Mae'r datblygwr bellach wedi cyflwyno cynllun diwygiedig sy'n ceisio cyfarch y problemau parcio ar y cynllun gwreiddiol ar gyfer rhai o'r tai. Fodd bynnag, nid yw'r datblygwr yn fodlon paratoi llwybr troed o'r stad arfaethedig i Ffordd yr Orsaf. Bwriad yr Adran Gynllunio yw cyflwyno'r cais i'r Pwyllgor Cynllunio ym mis Mai; ond cyn hynny dwi wedi gofyn i'r Uned Gyfreithiol edrych i fewn i safiad yr Adran Gynllunio ar y cais gan ei fod yn peri penbleth i gymaint ohonom.

1. Ffordd Crawia

Mae llawer wedi cwyno am gyflwr wyneb Ffordd Crawia, yn arbennig o fynedfa stad Hafan Elan i fynedfa Ysgol Brynrefail. Dwi wedi gofyn i'r Adran Briffyrdd am eu sylwadau ar hyn ac maent am ystyried rhoi y gwaith i Hogans. Fe olygai hyn y cawn well wyneb ar y ffordd yn hytrach na just llenwi'r tyllau – h.y. 'patchio'.

2 . Ffordd yr Orsaf

Mi fydd Ffordd yr Orsaf ar gau o 1 Mai hyd at 3 Mai. Y rheswm am hyn yw mi fydd contractwyr yn ail wynebu'r ffordd mewn rhai mannau fel yr adroddais mis diwethaf. Gweler y rhybudd isod. Fodd bynnag, mae yn bosib i'r dyddiadau hyn lithro ychydig wythnosau yn ôl yr Adran Briffyrdd.

DEDDF RHEOLI TRAFNIDIAETH Y FFYRDD 1984 - ADRAN 14(2) WEDI EI GYWIRO GAN Y DDEDDF TRAFNIDIAETH FFORDD (CYFYNGIADAU DROS DRO) 1991

CYNGOR GWYNEDD – (FFORDD YR ORSAF, LLANRUG)

GWAHARDDIAD TRAFNIDIAETH TRWODD DROS DRO

Mae Cyngor Gwynedd DRWY HYN YN RHOI RHYBUDD ni chaiff unrhyw berson, o 00:01 ar y dydd 1af o Fai, 2018, beri i unrhyw gerbyd fynd mewn unrhyw gyfeiriad ar hyd y darn hwnnw o'r ffordd a adwaenir fel Ffordd yr Orsaf, Llanrug o bwynt ger Sgwâr Llanrug gan deithio mewn cyfeiriad gogledd ddwyreiniol hyd at bwynt gyferbyn â Gwesty Penbont.

Y ffordd arall yw dilyn Ffordd yr A4086 o bwynt ger yr hen Swyddfa Bost, gan deithio mewn cyfeiriad de ddwyreiniol, hyd at y gyffordd ger yr eiddo a adwaenir fel Gwelfryn, Llanrug ac yna troi i'r chwith. Dilyn y ffordd ymlaen mewn cyfeiriad gogleddol, gan fynd heibio Tai Rhythallt, hyd at y gyffordd ger Gwesty Penbont. Troi i'r chwith ac yna dilyn y ffordd ymlaen hyd at y darn o'r ffordd sydd i'w gau ac i'r gwrthwyneb i drafnidiaeth sydd yn teithio o'r cyfeiriad arall.

Mae angen y gwaharddiad er galluogi gwaith trin wyneb y ffordd.

Disgwylir y gellir cwblhau'r gwaith o fewn 3 diwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod.

DYDDIEDIG :- 10fed o Ebrill, 2018.

Nodwyd fod y gwaith ar Ffordd yr Orsaf wedi ei symud yn ôl nawr ac mwy na thebyg y bydd yn fid Aws tar y gwaith yn cychwyn.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**168. I dderbyn adroddiad a / neu sylwadau ac i benderfynu ffordd ymlaen ag elusen 'Llanrug Poor House' (Cyng Goronwy Hughes)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Goronwy Hughes fod cyfrif wedi ei dderbyn gan CCLA (mae CCLA yn edrych ar ôl arian elusennau a Cynghorau ar draws y wlad). Nodwyd fod arian yn y gronfa yma ac fod angen dod a'r gronfa i ben. Adroddwyd oherwydd mai elusen yw'r 'Llanrug Poor House' yna mae oblygiadau cyfreithiol mae'n rhaid eu cychwyn i gau'r elusen lawr.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn yr adroddiad
b) Awdurdodi'r Cynghorydd Goronwy Hughes gymryd y camau priodol i edrych i fewn i ddod a'r elusen i ben.

**169. Cyflwr ffyrdd yn Llanrug (Cyng Haf Williams)**

Adroddodd y Cynghorydd Haf Williams ei bod wedi cal nifer o gwynion ar gyflwr ffyrdd yn enwedig cyflwr Ffordd yr Orsaf. Adroddwyd ymhellach ar gyflwr yr 'humps' ar Lon Groes, Llanrug.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn yr adroddiad flaenorol a, Ffordd yr Orsaf;
b) Y Clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd parthed cyflwr ffyrdd yr ardal

**170. Cyflwr ffyrdd yn Cwm y Glo (Cyng Haf Williams)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Haf Williams fod nifer o gwynion wedi dod i law am gyflwr y ffordd drwy Cwm y Glo. Adroddwyd fod y gwaith o drwsio'r ffordd wedi ei glustnodi i'w wneud.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**171. I ystyried gwella llefydd parcio yn meddygfa Llanrug – oes bosib creu llefydd yng nghefn y feddygfa. (Cyng Haf Williams).**

Adroddwyd fod y sefyllfa parcio ar Ffordd yr Orsaf yn ddrwg ofnadwy, gyda pobl yn mynd i'r siopau ac i'r feddygfa ac ei bod yn amhosib cael lle i barcio i fynd i'r feddygfa.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a'r feddygfa, i holi os fuasai yn bosib defnyddio llecyn o dir sydd wrth ochr y feddygfa fel man parcio.

**172. I ystyried cyfyngiad amser o flaen y Co-op a Wavells er mwyn i gwsmeriaid gael parcio i siopa a loriau gael lle i ddadlwytho. (Cyng Haf Williams)**

**Penderfynwyd:** Gohirio penderfyniad ar hyn o bryd a parhau i fonitro'r sefyllfa.

**173. Ceisiadau Cynllunio**

a) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0195/23/DA

**Lleoliad y Safle:** Tyn y Coed, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2AQ
**Dyddiad Cofrestru:** 15 Maw 2018
**Math o Gais:** Diwygiadau Ansylweddol
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug
**Bwriad:** Diwygiad ansylweddol ar gyfer newid deunydd to'r estyniad yn nhu blaen yr eiddo o ddeunydd polycarbonate i ddeunydd system teilsio sy'n adlewyrchu llechen naturiol.

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfyniad:** Dim penderfyniad i'w wneud – eisoes wedi ei ganiatáu.

b) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0259/23/LL
**Lleoliad y Safle:** Greuor, Llanrug, Caernarfon, LL552AQ

**Dyddiad Cofrestru:** 03 Ebrill 2018
**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Atgyweirio adeilad anheddol a chodi estyniadau ar yr ochr a'r cefn

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad – cefnogi'r cais.

c) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0226/23/LL
**Lleoliad y Safle:** Afonwy Cottage, Pontrug, Caernarfon, LL552SW
**Dyddiad Cofrestru:** 04 Ebrill 2018
**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug
**Bwriad:** Diwygio amod 4 o ganiatâd rhif C11/0778/23/LL er mwyn codi uchder to'r tŷ

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

**Daeth y cyfarfod i ben am 21:20**

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: